*Mae'r Offeryn Statudol hwn wedi cael ei argraffu yn lle'r OS sydd â'r un rhif ac mae'n cael ei ddosbarthu yn rhad ac am ddim i holl dderbynyddion hysbys yr Offeryn Statudol hwnnw.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 2141 (Cy.190)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Llaeth Ysgol (Cymru) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *5 Awst 2008* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *11 Awst 2008* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Medi 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru wedi'u dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac fe ymddengys i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus dehongli'r cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at—

(a) Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 sy'n sefydlu trefniadaeth gyffredin o farchnadoedd amaethyddol ac sy'n ymwneud â darpariaethau penodol ar gyfer cynhyrchion amaethyddol penodol (Rheoliad Sengl CMO)(**3**), a

(b) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 657/2008 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 ynghylch cymorth Cymunedol am gyflenwi llaeth a chynhyrchion llaeth penodol i ddisgyblion mewn sefydliadau addysgol(**4**)

fel cyfeiriad at y Rheoliad hwnnw fel y'i diwygiwyd o bryd i'w gilydd.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, a pharagraff 1A o Atodlen 2 iddi(**5**).

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Llaeth Ysgol (Cymru) 2008 a deuant i rym ar 1 Medi 2008.

(**1**) Yn rhinwedd adran 59(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(**2**) 1972 p. 68. Mae Gweinidogion Cymru wedi'u dynodi mewn perthynas â materion sydd wedi'u pennu yn Atodlen 3 i Orchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 3) 2006 (O.S. 2005/2766).

(**3**) OJ Rhif L 299, 16.11.07, t.1; a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 361/2008 (OJ Rhif L 121, 7.05.08, t 1).

(**4**) OJ Rhif L 183, 11.07.08, t.17.

(**5**) Mewnosodwyd gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoliadol 2006 (p. 51).

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall—

mae i "addysg feithrin" yr ystyr a roddir i "*nursery education*" o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**6**);

mae i "addysg gynradd" yr ystyr a roddir i "*primary education*" gan adran 2(1) o Ddeddf 1996;

ystyr "ceisydd" ("*claimant*") yw sefydliad addysgol cymwys neu awdurdod addysg lleol neu unrhyw gyflenwydd neu gymdeithas sy'n ceisio cymorth Cymunedol neu gymorth gwladol mewn perthynas â chynhyrchion llaeth cymwys ar ran sefydliad addysgol cymwys neu awdurdod addysg lleol;

ystyr "cost cyflenwi" ("*cost of supply*") mewn perthynas â chynhyrchion llaeth cymwys yw cost eu prynu ac yn ychwanegol swm y mae'n Gweinidogion Cymru yn rhesymol ystyried ei fod yn ddigonol i dalu costau caffael a gweinyddu cyflenwi'r cynhyrchion llaeth hynny;

ystyr "y costau gweddillol" ("*the residual costs*") yw'r costau cyflenwi, a dynnir gan brynwr mewn cysylltiad â chyflenwi cynhyrchion llaeth cymwys i sefydliad addysgol cymwys, llai unrhyw gymorth Cymunedol a chymorth gwladol a all gael ei roi mewn perthynas â'r cyflenwi hwnnw;

mae i "cyfnod allweddol 2" yr ystyr a roddir i " *ey stage 2*" gan adran 355 o Ddeddf 1996;

ystyr "cymorth Cymunedol" ("*Community aid*") yw cymorth Cymunedol a roddwyd yn unol ag Erthygl 102(1) o Reoliad y Cyngor ac yn unol â Rheoliad y Comisiwn;

ystyr "cymorth gwladol" ("*national aid*") yw cymorth a roddir gan Weinidogion Cymru o dan y Rheoliadau hyn yn unol ag Erthygl 102(2) o Reoliad y Cyngor;

ystyr "cynhyrchion llaeth cymwys" ("*qualifying mil products*") yw'r llaeth a'r cynhyrchion llaeth a restrir yn Atodiad 1 i Reoliad y Comisiwn fel cynhyrchion sy'n gymwys ar gyfer cymorth Cymunedol;

ystyr "Deddf 1996" ("*the 1996 Act*") yw Deddf Addysg 1996(**7**);

ystyr "disgyblion cymwys" ("*eligible pupils*") yw disgyblion sy'n derbyn addysg gynradd heblaw'r rhai sydd yng nghyfnod allweddol 2 neu'r rhai sy'n derbyn addysg feithrin;

ystyr "y rheolau Cymunedol" ("*the Community rules*") yw'r rheolau ynghylch darparu llaeth a chynhyrchion llaeth cymorthdaledig i ddisgyblion sy'n mynychu sefydliadau addysgol, a osodir gan Reoliad y Cyngor a Rheoliad y Comisiwn;

ystyr "Rheoliad y Comisiwn" ("*the Commission Regulation*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 657/2008 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) 1234/2007 ynghylch cymorth Cymunedol am gyflenwi llaeth a chynhyrchion llaeth penodol i ddisgyblion mewn sefydliadau addysgol(**8**), fel y'i diwygiwyd o bryd i'w gilydd;

ystyr "Rheoliad y Cyngor" ("*the Council Regulation*") yw Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 sy'n ymwneud â threfniadaeth gyffredin o farchnadoedd amaethyddol ac ar ddarpariaethau penodol ar gyfer cynhyrchion amaethyddol penodol (Rheoliad Sengl CMO)(**9**) fel y'i diwygiwyd o bryd i'w gilydd;

ystyr "sefydliad addysgol cymwys" ("*qualifying educational establishment*") yw sefydliad addysgol y cyfeirir ato yn Erthygl 2 o Reoliad y Comisiwn; ac

(**6**) 1998 p. 31.
(**7**) 1996 p. 56.
(**8**) OJ Rhif L 183, 11.07.08, t.17
(**9**) OJ Rhif L 299, 16.11.07, t.1; a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 361/2008 (OJ Rhif L 121, 7.05.08, t.1).

ystyr "yr hyn sy'n gyfwerth â llaeth" ("*mil equivalent*") yw'r swm a bennir yn Erthygl 5(2) o Reoliad y Comisiwn fel swm sy'n cynrychioli'r cynnwys sy'n gyfwerth â llaeth mewn cynhyrchion llaeth penodol.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at reoliad â rhif yn gyfeiriad at y rheoliad sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Rheoliadau hyn.

**Rhoi cymorth gwladol**

**3.**—(1) Yn ddarostyngedig i reoliad 4 caiff Gweinidogion Cymru roi cymorth gwladol mewn cysylltiad â chyflenwi cynhyrchion llaeth cymwys i ddisgyblion mewn sefydliadau addysgol.

(2) At ddibenion paragraff (1), caiff Gweinidogion Cymru bennu math neu ddosbarthiad sefydliadau addysgol cymwys neu gynhyrchion llaeth cymwys y ceir talu cymorth gwladol mewn perthynas â hwy, drwy gyfeirio at unrhyw set o amgylchiadau sy'n briodol yn nhyb Gweinidogion Cymru.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae'r darpariaethau a ganlyn o Reoliad y Comisiwn yn gymwys mewn perthynas â chymorth gwladol megis petai yn gymorth Cymunedol—

(a) Erthygl 2 (buddiolwyr);

(b) Erthyglau 3(1) a 3(4) (cynhyrchion llaeth cymwys);

(c) Erthygl 5(4), yr is-baragraff cyntaf (nid yw llaeth a chynhyrchion llaeth a ddefnyddir wrth baratoi prydau i gael cymorth);

(ch) Erthygl 8 (amodau cyffredinol ar gyfer cymeradwyaeth),

(d) Erthygl 9 (amodau penodol ar gyfer cymeradwyo ymgeiswyr penodol);

(dd) Erthygl 10 (atal cymeradwyaeth dros dro a'i dynnu'n ôl);

(e) Erthygl 11 (ceisiadau am daliadau);

(f) Erthygl 12 (talu cymorth);

(ff) Erthygl 14 (monitro prisiau);

(g) Erthygl 15 (rheolaethau a sancsiynau).

**Amodau sy'n gymwys ar gyfer rhoi cymorth gwladol**

**4.**—(1) Rhaid i gymorth gwladol o dan reoliad 3 gael ei roi yn ddarostyngedig i'r amodau a bennir ym mharagraff (2).

(2) Yr amodau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) yw—

(a) bod ceisyddion wedi'u cofrestru neu wedi'u cymeradwyo gan Weinidogion Cymru at ddibenion hawlio cymorth Cymunedol;

(b) bod Gweinidogion Cymru wedi'u bodloni bod ceisydd a sefydliad addysgol cymwys (os ydynt yn wahanol), yn cydymffurfio, ac wedi cydymffurfio, â'r rheolau Cymunedol ac ag unrhyw rwymedigaethau neu ofynion eraill a all fod Gweinidogion Cymru wedi eu hysbysu hwy ohonynt;

(c) ar gyfer unrhyw sefydliad addysgol cymwys, mai mwyafswm y cynhyrchion llaeth cymwys y ceir rhoi cymorth gwladol mewn perthynas ag ef yw 0.25 litr o laeth neu'r hyn sy'n gyfwerth â llaeth, yn ôl y digwydd, am bob disgybl ar gofrestr yr ysgol, am bob diwrnod ysgol;

**Cymorth gwladol ychwanegol i ddisgyblion cymwys**

**5.** Pan roddir cymorth gwladol mewn cysylltiad â chyflenwi cynnyrch llaeth cymwys sydd naill ai â chyflas neu hebddo, yn llaeth cyflawn neu'n laeth hanner sgim, i ddisgyblion cymwys, caiff y

swm a roddir felly fod yn swm digonol i dalu'r costau gweddilliol a fuasai fel arall yn cael eu talu gan y disgyblion neu eu rhieni neu eu gwarcheidwaid mewn perthynas â'r cyflenwi hwnnw.

### Talu cymorth gwladol

**6.** Rhaid i gymorth gwladol a roddir gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad 3 gael ei dalu i geisyddion gan yr Asiantaeth Taliadau Gwledig sy'n gweithredu fel asiant Gweinidogion Cymru(**10**).

### Dal cymorth gwladol yn ôl a'i adennill

**7.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru o hawlio hynny ddal yn ôl neu adennill oddi ar unrhyw geisydd y cyfan neu unrhyw ran o unrhyw gymorth Cymunedol neu gymorth gwladol a roddwyd o dan y Rheoliadau hyn os ydynt wedi'u bodloni nad yw'r ceisydd neu sefydliad addysgol cymwys y mae ceisydd wedi gwneud cais mewn perthynas ag ef yn cydymffurfio neu nad yw wedi cydymffurfio ag unrhyw un o'r amodau a bennir yn rheoliad 4(2).

(2) Cyn cymryd unrhyw gamau o dan baragraff (1), rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) roi rhesymau ysgrifenedig i'r ceisydd dros y camau y bwriada Gweinidogion Cymru eu cymryd;

(b) rhoi cyfle i'r ceisydd wneud sylwadau ysgrifenedig o fewn y fath gyfnod o amser a ystyrir yn rhesymol gan Weinidogion Cymru; ac

(c) ystyried unrhyw sylwadau o'r fath.

(3) Mae unrhyw arian sy'n ddyledus i Weinidogion Cymru yn rhinwedd y Rheoliadau hyn yn adenilladwy fel dyled.

### Y gyfradd gyfnewid gymwysadwy

**8.**—(1) At ddibenion cyfrifo cymorth gwladol mewn sterling, rhaid i Weinidogion Cymru bennu'r gyfradd gyfnewid rhwng sterling a'r ewro sydd i'w chymhwyso at gyfrifiad o'r fath ac, yn ddarostyngedig i baragraff (2) cânt ddiwygio'r gyfradd honno o dro i dro.

(2) Cyn unrhyw ddiwygiad arfaethedig ar y gyfradd gyfnewid rhwng sterling a'r ewro yn unol â pharagraff (1), rhaid i Weinidogion Cymru roi o leiaf 14 niwrnod o hysbysiad ysgrifenedig i geisyddion am y gyfradd ddiwygiedig sydd i'w chymhwyso.

### Dirymu

**9.** Mae Rheoliadau Llaeth Ysgol (Cymru) 2001(**11**) yn cael eu dirymu.

*John Griffiths*
O dan awdurdod y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

5 Awst 2008

(**10**) Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud trefniadau gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig i'r Asiantaeth Taliadau Gwledig wneud taliadau cymorth gwladol ar ran Gweinidogion Cymru yn unol ag adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(**11**) O.S. 2001/275 (Cy. 11).

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n dod i rym ar 1 Medi 2008 yn rhoi ar waith fesurau mewn perthynas ag Erthygl 102 o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 sy'n sefydlu trefniadaeth gyffredin o farchnadoedd amaethyddol ac sy'n ymwneud â darpariaethau penodol ar gyfer cynhyrchion amaethyddol penodol (Rheoliad Sengl CMO)(**12**).

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Llaeth Ysgol (Cymru) 2001(**13**).

Yn y Rheoliadau hyn mae cyfeiriadau at Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 ac at Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 657/2008(**14**) sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 ynghylch cymorth Cymunedol am gyflenwi llaeth a chynhyrchion llaeth penodol i ddisgyblion mewn sefydliadau addysgol (OJ Rhif L 183, 11.7.08, t.17) yn gyfeiriadau at y Rheoliadau hynny fel y'i diwygiwyd o bryd i'w gilydd.

Caiff Gweinidogion Cymru roi cymorth gwladol (sy'n cydategu cymorth y Gymuned Ewropeaidd) mewn cysylltiad â chyflenwi llaeth a chynhyrchion llaeth penodol i ddisgyblion mewn sefydliadau addysgol (rheoliad 3(1)).

Caiff Gweinidogion Cymru bennu math neu ddosbarthiad sefydliadau addysgol neu gynhyrchion llaeth y ceir talu cymorth gwladol mewn cysylltiad â hwy (rheoliad 3(2)).

Rhaid i gymorth gwladol a roddir gan Weinidogion Cymru fod yn ddarostyngedig i'r un rheolau a'r un gofynion ac amodau ag sy'n gymwys i gymorth y Gymuned o dan Erthygl 102(1) o Reoliad y Cyngor ac sydd i'w cael yn Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 657/2008 (rheoliad 4(2)).

Os rhoddir cymorth gwladol mewn cysylltiad â chyflenwi llaeth cyflawn neu laeth hanner sgim, â chyflas neu heb gyflas, i ddisgyblion cynradd heblaw'r rhai sy'n derbyn addysg feithrin neu'r rhai sydd yng nghyfnod allweddol 2, caiff cyfanswm y cymorth hwnnw fod yn swm sy'n ddigonol i dalu unrhyw gost a fuasai fel arall yn gorfod cael ei thalu gan y disgyblion hynny neu eu rhieni neu eu gwarcheidwaid mewn amgylchiadau lle nad yw cymorth Cymunedol yn talu'n llawn am gost cyflenwi'r cynnyrch hwnnw (rheoliad 5).

(**12**) OJ Rhif L 299, 16.11.07, t.1.
(**13**) O.S. 2001/275 (Cy.11).
(**14**) OJ Rhif L 183, 11.07.08, t.17.